Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Gofal Plant Flourish.Cymru Childcare**

**Ysgol Gynradd Tonyrefail**
**Martin Crescent**
**Tonyrefail**
**Porth**
**CF39 8NT**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

7/9/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gofal Plant Flourish.Cymru Childcare

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Flourish.Cymru International Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Ionawr 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Na |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn Gofal Plant Flourish.Cymru Childcare. Maent yn cyfleu eu hanghenion a'u safbwyntiau yn hyderus, gan ddangos ymdeimlad o berthyn. Mae'r plant yn ymgysylltu ac yn ymddiddori, gyda llawer o gyfleoedd i gychwyn eu gweithgareddau eu hunain a dilyn eu diddordebau.

Mae bron pob un o'r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau effeithiol y gwasanaeth, gan gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach a diwallu eu hanghenion. Mae'r staff yn darparu gofal a sylw da, gan ddatblygu perthnasoedd cynnes. Maent yn darparu gweithgareddau amrywiol ac yn cynnig rhai cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnig amgylchedd saff, cynnes a diogel. Gall y plant archwilio a chael mynediad i'w mannau chwarae yn ddiogel a chael cyfleoedd rheolaidd i fwynhau'r ardal yn yr awyr agored. Mae ystod o deganau, adnoddau a chyfarpar o ansawdd da yn cael eu cynnig.

Mae arweinyddiaeth gadarn a hynod o effeithiol yn y gwasanaeth. Maent yn sicrhau bod yr holl bolisïau a bron pob cofnod yn cael eu cwblhau'n llawn a'u cadw'n ddiogel. Maent yn gweithio'n gadarnhaol i wneud gwelliannau a sicrhau bod safbwyntiau'r rhieni / gofalwyr, y staff a'r plant yn cael eu hystyried wrth werthuso eu gwasanaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn hysbysu'r rhieni'n dda.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae bron pob plentyn yn gyfathrebwyr hyderus oherwydd ystyrir eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion. Er enghraifft, gofynnodd y plant am ddiod neu fwy o fwyd ac fe'i rhoddwyd iddynt. Gwerthfawrogir safbwynt a diddordebau'r plant a gweithredir arnynt. Gwnânt ddewisiadau am eu chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn gallu cael mynediad i ystod o ddeunyddiau ac adnoddau wedi'u hailgylchu i wneud eu creadigaeth eu hunain.

Mae bron pob plentyn yn gyffrous ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Daw'r plant i mewn i'r gwasanaeth yn hapus ac wedi ymlacio. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn, gan ddod yn hyderus i siarad ag ymwelwyr a mynd at staff am gysur a sicrwydd. Maent yn gyfarwydd â threfniadau arferol y gwasanaeth. Er enghraifft, aeth plant yn syth i olchi eu dwylo heb unrhyw anogaeth wrth gyrraedd y gwasanaeth.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson o dda. Mae'r plant yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau yn ystod yr arferion dyddiol ac yn ymateb i gwestiynau'r staff. Maent yn cydweithio'n dda ac yn meithrin perthynas hyfryd â'u ffrindiau. Gwelsom blant yn gweithio gyda'i gilydd wrth chwarae yn y gwahanol ardaloedd. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn gweithio yn yr ardal adeiladu, yn rhannu'r adnoddau, ac yn dangos i'w gilydd beth roedden nhw wedi'i wneud. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol, ac roedd y plant hŷn yn chwarae gyda'r plant iau.

Mae bron pob un o'r plant yn frwdfrydig ac yn ymddiddori mewn chwarae a dysgu. Er enghraifft, roedd un plentyn yn gyffrous iawn pan sylwodd ar sgŵp y gallai ei ddefnyddio yn ei chwarae. Maent yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd diddorol o dan do ac yn yr awyr agored a gallant ddewis ymlacio a chael adegau distaw. Mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnod da o amser am eu hoedran a chyfnod eu datblygiad. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da o gyflawniad a hunan-barch uchel. Maent yn awyddus i rannu'r hyn y maent yn ei wneud neu wedi'i wneud. Er enghraifft, tynnodd plentyn lyfr o'r silff lyfrau, a dal bys aelod o staff i'w harwain at y carped i ddarllen y llyfr gydag ef.

Caiff y plant lawer o gyfleoedd i ddechrau eu gweithgareddau chwarae eu hunain ac i ddylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau. Mae gan y plant rai cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, sydd yn eu galluogi i wneud rhywfaint o bethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, roedd y plant iau yn cael eu hannog a'u canmol pan fyddent yn tynnu eu cotiau eu hunain. Dywedodd y plant y siaradwyd â nhw eu bod yn mwynhau dod i'r gwasanaeth a bod staff hyfryd yno.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae bron pob aelod o'r staff  yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Er enghraifft, maent yn diheintio'r bwrdd cyn byrbryd ac yn golchi dwylo'n rheolaidd. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o'r broses drosglwyddo ar ddiwedd pob sesiwn ac maent yn nodi ac yn rheoli risgiau. Er enghraifft, roeddent yn tacluso ardaloedd o'r gwasanaeth, yn trafod diogelwch â'r plant ac yn eu hatgoffa am gadw'n ddiogel. Maent yn cadw cofnod o ddamweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau a roddwyd, gan sicrhau bod rhieni'n llofnodi i gydnabod y cofnod. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, ni wnaethant gwblhau cofnod anaf sy'n bodoli eisoes. Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg dyddiol ac yn gweithredu arferion glanhau trylwyr a hylendid da. Maent yn cynnig byrbryd a diod iach. Mae bron pob un o'r staff yn cadw cofnodion da o anghenion unigol y plant, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant.

Mae bron pob aelod o'r staff  yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Clywsom lawer o gyfathrebu, canmoliaeth gadarnhaol, a gwobrwyo am ymddygiad da. Er enghraifft, roedden nhw'n atgoffa'r plant o reolau'r gwasanaeth *"Rydyn ni'n garedig wrth ein teganau"*. Mae bron pob aelod o'r staff  yn ymateb yn gyson; maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithiadau yn gadarnhaol, yn cyfleu cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae bron pob aelod o'r staff  yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant unigol.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal yn ymroddedig i ddarparu ystod eang o weithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn cefnogi ac yn annog y plant yn eu chwarae. Mae bron pob aelod o'r staff yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Maent yn cyfrannu at gynllunio sy'n datblygu diddordebau'r plant. Mae'r staff yn asesu ymgysylltiad y plant mewn gweithgareddau ac yn newid gweithgareddau / adnoddau / ardaloedd yn dibynnu ar hoffterau'r plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon am ddatblygiad y plant ac maent yn rhannu'r wybodaeth yn rheolaidd â'r rhieni.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn saff ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda o dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn sicrhau bod y drysau'n cael eu cadw dan glo ac yn cofnodi ymwelwyr â'r safle. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd ac maent yn cadw cofnod o'r rhain gan gynnwys gwybodaeth fuddiol. Mae trefniadau glanhau effeithiol ar waith, sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cwblhau asesiadau risg tân, cyffredinol ac ardaloedd unigol effeithiol. Maent yn dilyn rhaglen reolaidd o gynnal a chadw a gwiriadau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd pob tystysgrif / cofnod diogelwch ar gael i'w harchwilio. Yn dilyn yr ymweliad arolygu, anfonodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth gopïau o'r tystysgrifau / cofnodion diogelwch.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yna le chwarae da dan do fel bod y plant yn gallu symud yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu bron holl anghenion y plant. Er enghraifft, maent yn storio adnoddau mewn basgedi agored, neu ar silffoedd isel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod unrhyw le chwarae yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd a gwelsom dystiolaeth ffotograffig o hyn yn cael ei ddefnyddio gan blant o bob oed. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn trefnu'r amgylchedd yn briodol, ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer bron pob un o'r ystodau oedran y gofelir amdanynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y plant yn gallu cael mynediad at ystod eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar, dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, gyda chymorth, gall y plant ddefnyddio offer llaw fel rhan o'u hardal adeiladu. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn cynnig cyfleoedd i ennyn ac ymgysylltu diddordeb a dychymyg y plant. Mae'r adnoddau'n briodol i'r oedran a'r cyfnod ac mae gemau, llyfrau ac adnoddau mwy heriol ar gyfer y plant hŷn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gadarn ar gyfer y gwasanaeth, y maent yn ei rhannu ag eraill. Maent yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben effeithiol a chyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn casglu ac yn cadw'r cofnodion gofynnol gan gynnwys contractau, caniatâd, ac anghenion unigol y plant. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth bolisïau da a chlir, ac maent yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Maent yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gan gwblhau hysbysiadau am newidiadau i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu, nid oeddent wedi hysbysu AGC am aelod newydd o staff. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwasanaeth wedi cwblhau'r hysbysiad ar-lein angenrheidiol ac mae'r holl wybodaeth yn gyfredol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ddealltwriaeth da o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn bodloni rhwymedigaethau'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithredu prosesau hunanwerthuso yn weithredol. Maent yn gofyn am awgrymiadau'r plant, eu rhieni / gofalwyr, y staff, a phartneriaid eraill sydd â diddordeb ac yn gweithredu arnynt. Maent yn casglu gwybodaeth ac adborth, gan ddefnyddio'r rhain i greu adroddiad ansawdd gofal effeithiol yn flynyddol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth brosesau da iawn wrth ymdrin ag unrhyw bryderon ac maent yn gweithredu gwelliannau mewn modd amserol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn dilyn proses recriwtio ddiogel i ddiogelu'r plant. Mae ganddynt systemau boddhaol ar waith i gyflawni gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda ac yn annog y staff i fynychu ystod o hyfforddiant ac i ddefnyddio'r hyn maent wedi ei ddysgu. Cynhelir goruchwyliaeth ac arfarniadau da yn rheolaidd. Ceir diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n cael ei fodelu gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth. Er enghraifft, mae'r staff yn cael cyfleoedd i fynychu ystod o hyfforddiant gan gynnwys cymorth cyntaf, ymwybyddiaeth o ddyslecsia a chefnogi iechyd a llesiant plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio'n dda i sicrhau bod cymarebau staffio'n cael eu bodloni a'u bod yn diwallu anghenion y plant. Maent yn cadw cofnod cywir o'r amseroedd y mae'r plant yn eu gofal.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn dda. Maent yn sicrhau bod y rhieni'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Dywedodd rhieni eu bod yn hapus ar y gwasanaeth a bod y staff yn hyfryd ac yn hawdd mynd atynt. Maent yn sicrhau, pan fo pryderon am gynnydd neu ddatblygiad y plant, bod gweithdrefnau a phrotocolau ar waith ar gyfer rhannu'r wybodaeth.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 – Sicrhau bod y gwasanaeth yn cadw copi o dystysgrifau / cofnodion diogelwch y safle, a bod y rhain ar gael i’w harchwilio.

A2 – Sicrhau bod y ffurflen anafiadau sy'n bodoli eisoes yn cael ei chwblhau.

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 22/11/2022